**WHC (2023) 10**

# CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Dyddiad Cyhoeddi:** 28/06/23

**STATWS:** **CYDYMFFURFIO**

**CATEGORI:** **POLISI**

**Teitl:** Ardystio bod gan Berson Nam ar y Golwg mewn Gofal Sylfaenol a Chymunedol

**Dyddiad Dod i ben / Dyddiad yr Adolygiad**
Amherthnasol

**I'w weithredu gan:**
Byrddau Iechyd Lleol

**Angen gweithredu erbyn:**
26/05/23

**Anfonwr:**
Sarah O'Sullivan-Adams

**Enw(au) Cyswllt GIGC Llywodraeth Cymru :**
Sarah O'Sullivan-Adams
Pennaeth Optometreg ac Awdioleg
Yr Is-adran Gofal Sylfaenol E-bost: Sarah.OSullivan-Adams@llyw.cymru

**Dogfennau amgaeedig:** (*Nodwch beth ydynt neu rhowch Dim)*
Ffurflen Tystysgrif Nam ar y Golwg Cymru 2022 (CVIW 2022) a'r Nodiadau Eglurhaol

**Teitl:** Ardystio bod gan Berson Nam ar y Golwg

Mae cael ardystiad yn rhagamod ar gyfer cofrestru gyda nam ar y golwg. Mae pobl sydd â nam ar eu golwg sy'n bodloni meini prawf penodol[1,2] yn gymwys i gael eu cofrestru gydag adran gwasanaethau cymdeithasol eu hawdurdod lleol fel unigolion sydd â nam ar y golwg (SI) neu sydd â nam difrifol ar y golwg (SSI). Drwy gofrestru, bydd unigolion yn cael mynediad at wasanaethau a chymorth sydd wedi'u cynllunio i'w helpu i aros yn annibynnol. Yng Nghymru, ar hyn o bryd, mae Offthalmolegwyr Ymgynghorol yn llofnodi Tystysgrif Nam ar y Golwg (CVI). Fodd bynnag, nid oes gofyniad cyfreithiol yng Nghymru sy'n datgan mai dim ond Offthalmolegydd Ymgynghorol all lofnodi Tystysgrif Nam ar y Golwg.

Daeth ymchwil ddiweddar i'r casgliad, o safbwynt nodi cymhwystra unigolion i gael tystysgrif, fod cytundeb tebyg rhwng offthalmolegwyr a phanel consensws o'i gymharu â'r cytundeb rhwng optometryddion sydd wedi'u hyfforddi a'u hachredu i ddarparu gwasanaethau golwg gwan a'r panel consensws[3]. Yn unol â hynny, bydd llwybr cleifion newydd i Gymru gyfan yn cael ei gyflwyno a fydd yn galluogi cleifion i gael eu hardystio yn unigolion sydd â nam ar eu golwg gan optometryddion Gwasanaethau Gofal Llygaid Cymru sydd wedi'u hachredu i ddarparu gwasanaethau golwg gwan ac sydd wedi cwblhau modiwl hyfforddiant cymeradwy, fel y pennir gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru ac yr amlinellir yng Ngweithdrefnau Gweithredu Safonol Gwasanaethau Gofal Llygaid Cymru. Bydd hyn yn ychwanegol at yr ardystiad ar gyfer cleifion a gynhelir gan Offthalmolegwyr Ymgynghorol. Mae'r dull newydd hwn yn gyson ag egwyddorion gofal iechyd darbodus a'n hymrwymiadau yn *Cymru Iachach* a *Gofal Iechyd Llygaid GIG Cymru: Dull Gweithredu ar gyfer Gwasanaethau Optometreg yn y Dyfodol*.

(Noder: Cyn diwygio'r contract optometreg, achrediad Archwiliadau Iechyd Llygaid Cymru ynghyd â Gwasanaeth Golwg Gwan Cymru sy'n angenrheidiol).

Mae pedwar newid wedi'u gwneud i'r ffurflen Tystysgrif Nam ar y Golwg Cymru (CVIW) bresennol er mwyn gallu rhoi'r drefn newydd ar waith:

- Mae'r pennawd "*I'w gwblhau gan yr Offthalmolegydd (ticiwch un)"* wedi cael ei newid yn "*I'w gwblhau gan yr Offthalmolegydd/optometrydd (ticiwch un)"*
- Mae blychau dewis opsiwn wedi'u cynnwys i nodi p'un a ydy'r ymarferydd yn offthalmolegydd neu'n optometrydd
- Mae blychau dewis opsiwn wedi'u cynnwys i nodi a gafodd yr ardystiad ei gynnal mewn gwasanaeth llygaid yn yr ysbyty, practis optometreg neu leoliad symudol
- Mae'r label *"Cyfeiriad yr ysbyty"* wedi cael ei newid yn "*Cyfeiriad prif weithle y sawl sy'n ardystio (ysbyty/ practis optometreg)"*

Bydd yr un ffurflen CVIW 2022 yn cael ei defnyddio ar gyfer ardystio mewn gofal sylfaenol a chymunedol a gofal eilaidd. Mae'r llwybr cleifion ar gyfer y gwasanaeth hwn i'w weld yn y llawlyfrau clinigol perthnasol.

1. RNIB, The criteria for certification. Ar gael yn https://www.rnib.org.uk/eye-health/registering-your-sight-loss/criteria-certification
2. Adran Iechyd Llywodraeth y DU (2017), Certificate of Vision Impairment: Explanatory Notes for Consultant Ophthalmologists and Hospital Eye Clinic Staff in England. Ar gael yn https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/637590/CVI_guidance.pdf
3. Bartlett, R., Jones, H., Williams, G. et al. Agreement between ophthalmologists and optometrists in the certification of vision impairment. Eye 35, 433–440 (2021). https://doi.org/10.1038/s41433-020-0860-x